Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Botwnnog
Botwnnog
Llyn
Gwynedd
LL53 8PY

6/11/24

Annwyl Catrin Pritchard

**Ymweliad Interim:** Hydref 2024

Annwyl Catrin,

Diolch am eich cefnogaeth gyda'r ymweliad interim. Fe wnaethom fwynhau'r cyfle i gwrdd â chi, eich staff a'ch disgyblion a chlywed mwy am y gwaith gwella y mae'r ysgol wedi'i wneud ers yr arolygiad craidd. Roedd hi'n braf gweld y natur agored a ddangosodd eich staff yn ystod y trafodaethau.

Yn ystod ein hymweliad, cawsom gyfle i:

- Gynnal trafodaethau gydag uwch arweinwyr am eich prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, eich gwaith i wella addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu llythrennedd disgyblion.
- Siarad â'r disgyblion a chlywed eu hadborth am yr ysgol.
- Ymweld â gwersi mewn amrywiaeth o bynciau i weld disgyblion a staff yn ymgymryd â'u gwaith.
- Graffu ar sampl o waith y disgyblion.
- Siarad ag arweinwyr canol am eu gwaith a chlywed am yr heriau y mae nhw'n eu hwynebu a sut maen nhw'n wynebu'r heriau hyn.
- Ymgymryd â gwaith craffu a gweithgareddau arsylwi gwersi gydag uwch arweinwyr a thrafod prif ganfyddiadau'r gweithgareddau hyn.

**Ffocws yr ymweliad**

**A oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni?**

Yn ystod y sampl bychan o wersi a welwyd, roedd yn braf gweld y berthynas waith gynhyrchiol a gwerthfawr rhwng athrawon a disgyblion. Roedd disgwyliadau uchel gan yr athrawon a arsylwyd o ymddygiad ac ymgysylltiad disgyblion. Gwelwyd hefyd

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

yr athrawon yn esbonio cysyniadau yn glir ac yn gwneud defnydd addas o adnoddau i gynorthwyo'r dysgu a'r addysgu. Roedd tystiolaeth yn y gwersi a'r llyfrau a welwyd o gynllunio priodol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth bynciol disgyblion.

Teimlwn y byddai'n werth ystyried

- a yw athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i weithio ar dasgau estynedig a datblygu eu gallu i feddwl yn annibynnol?

**Beth yw ansawdd y ddarpariaeth i wella uwch-fedrau darllen a mynegiant ysgrifenedig disgyblion?**

O'r sampl o waith a'r ychydig o wersi a welwyd, mae'n ymddangos bod cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau darllen ac ysgrifennu sylfaenol disgyblion ar draws ystod dda o bynciau. Ar y cyfan, ceir taflenni gwaith a thasgau pwrpasol sy'n dangos ôl meddwl athrawon o'r hyn y maent am i ddisgyblion ei ddysgu. Mae'n ymddangos hefyd bod arferion priodol o ddarparu adborth pwrpasol ar draws nifer o bynciau a chyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ail-ddrafftio rhannau o'u gwaith ysgrifenedig yn y mwyafrif o bynciau.

Teimlwn y byddai'n werth ystyried

- a oes digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ymarfer uwch fedrau darllen ar draws y pynciau?
- a oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac annibynnol am yr hyn maent wedi ei ddysgu dros gyfnod?

**Pa mor effeithiol yw prosesau gwella'r ysgol wrth arfarnu ansawdd y dysgu a'r addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer y medrau?**

Mae'n braf clywed am gynlluniau'r ysgol ar gyfer trefniadau monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae rhain wedi eu trafod ymysg uwch arweinwyr ac wedi eu rhoi ar waith gyda'r arweinwyr canol. Ymddengys bod arweinwyr canol yn cael eu dwyn yn atebol yn briodol trwy gyfarfodydd cyswllt adrannol i drafod arfarniadau, adnabod blaenoriaethau a chychwyn cynllunio gwelliant. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd priodol o ddata i ddadansoddi ac adnabod meysydd i'w datblygu.

Teimlwn y byddai'n werth ystyried:

- A yw arweinwyr bob amser yn blaenoriaethu'r prif faterion sydd angen eu gwella?

- A yw prosesau gwella'r ysgol yn rhoi digon o bwyslais ar arfarnu darpariaeth yn ôl ei effaith ar gynnydd disgyblion?

Diolch eto am eich cymorth wrth wneud y trefniadau a hoffwn ddymuno'n dda i chi gyda'ch gwaith gwella.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6614003

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol